# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Tachwedd 2019

Amser: 13.00 - 16.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5628

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Gareth Bennett AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Ifan Evans, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Griffiths, NHS Wales Informatics Service (NWIS)<br>Becky Favager, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>John Fry, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Mark Jeffs |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Adam Price AC.

1.3 Cafwyd datganiad o fuddiant gan Rhianon Passmore AC ar gyfer Eitem 3 gan fod ei phartner yn un o gyflogeion Thales Group, sef cwmni seiberddiogelwch.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Rheoli gwastraff: Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### 2.2 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Gwybodaeth ychwanegol gan Gomisiwn y Cynulliad (21 Hydref 2019)

### 2.3 Rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws Cymru: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (23 Hydref 2019)

## 3 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

3.1 Fel rhan o'r gwaith o fonitro'r mater hwn, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru i drafod y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gweithredu argymhellion y Pwyllgor.

3.2 Cytunodd Dr Andrew Goodall i:

- rannu manyleb swydd y Prif Swyddog Digidol pan fydd wedi'i chwblhau a rhoi gwybod am yr ymgeisydd llwyddiannus pan fydd wedi'i benodi;
- archwilio argaeledd Fy Iechyd Ar-lein pan fo meddygfeydd yn uno; a
- sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses o gaffael systemau gwybodeg meddygon teulu ar ôl canslo'r contract yn ddiweddar.

## 4 Rheoli gwastraff: Sesiwn dystiolaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'i ymchwiliad i Reoli Gwastraff.

4.2 Cytunodd Becky Favager i ymchwilio i'r mater a godwyd ynghylch technoleg fodiwlaidd wasgaredig a sut y gellir defnyddio hydrogen fel ffynhonnell ynni ar gyfer cerbydau trydan.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Rheoli gwastraff: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Trafod y wybodaeth ychwanegol gan Gomisiwn y Cynulliad

8.1 Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Gomisiwn y Cynulliad fel rhan o'r gwaith o benderfynu pa eitemau i'w cynnwys yn adroddiad y Pwyllgor.